YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIV. CHWEFROR, 1944. RHIF 2.

Yr Eglwys a'i Chenhadaeth.

Gan y PARCH. LEWIS WILLIAMS, RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.

Y MAE addoli'n ddefod angenrheidiol. Heb addoli ni all dyn gynyddu. Cyn cynyddu rhaid i ddyn gydnabod rhywbeth uwchlaw'r hyn sydd ynddo ef ei hun. Ni all hwnnw fod ond mewn person. Felly, y mae yna Berson sydd uwchlaw dyn, sef Duw. Mae yna bethau sy'n gynorthwyon i addoliad, megis lle wedi ei gysegru, a chymdeithas o bobl dduwiolfrydig. Crea hynny awyrgylch sydd yn fanteisiol i addoliad. Dengys hyn fod Eglwys yn sefydliad angenrheidiol i addoliad.

Gellir deffinio Eglwys fel cymdeithas o addolwyr y Duw byw, yn trefnu eu buchedd a'u gweithredoedd yn ôl cyfarwyddyd Duw, ac mewn undeb ysbrydol ag ef. Ond wrth ddeffinio Eglwys fel "cymdeithas," rhaid cofio ei bod yn fwy na chymdeithas yn ystyr gyffredin y gair. Wrth sôn am "gymdeithas," yn yr ystyr gyffredin, ni feddylir fod dim yn uwch yn perthyn iddi na dynion. Mae Duw yn perthyn i Eglwys. Gellir dweud mai Duw a roddodd fod i'r Eglwys, oblegid oddiar chwenychiad dyn i addoli Duw y tarddodd yr Eglwys. Nid dyfais ddynol yn unig mohoni. Mae mwy o Dduw ynddi nag sydd o ddynion. Mae pwysigrwydd mawr yn perthyn i'w haelodau. Maent yn "rhywogaeth sanctaidd, yn genedl sanctaidd," ac yn "bobl briodol i Dduw." Mae cyfrifoldeb mawr arnynt, sef ymarweddu'n deilwng o'u perthynas a Duw fel plant iddo ef a cheisio sefydlu ei ewyllys ar y ddaear. Hwy yw "halen y ddaear," a "goleuni y byd."

Mae i'r Eglwys ei chenhadaeth. Ei gwaith yw bod yn gyfrwng yn llaw Duw i hyrwyddo egwyddorion Teyrnas Dduw ar y ddaear. Mae yna arbenigrwydd yn perthyn i'r Eglwys ar gyfrif ei pherthynas agos â Duw. Mae'n sefydliad cysegredig. Pwysig iddi gofio hyn bob amser.

Er mwyn bod yn gyfrwng effeithiol i gyflawni bwriadau Duw yn y byd, rhaid iddi fod mewn perthynas agos â Duw, *a disgwyl pethau mawr oddiwrth Dduw.* Ni fedr wneud pethau mawr dros Dduw heb dderbyn pethau mawr oddiwrth Dduw. "Aroswch chwi yn ninas Ierwsalem," meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder." A ydyw'r Eglwys yn y cyflwr hwn *o ddisgwyl oddiwrth Dduw* ? Diau mai achos ei hanallu a'i haflwyddiant heddiw ydyw hyn, nid yw'n disgwyl digon oddiwrth Dduw. Rhaid iddi dderbyn o Ysbryd Duw yn helaeth cyn y gall gyflawni ei gwaith yn effeithiol.

Ofnwn nad yw'r Eglwys yn meddu ar ymwybyddiaeth ac ymdeimlad digon dwfn o'r ffaith fod iddi genhadaeth. Ni fydd i'r Eglwys ogoniant a nerth hyd nes iddi sylweddoli'r ffaith fod iddi swydd barhaus yn y byd. Ni theimla arni gyfrifoldeb heb hynny. Mae ei chyfrifoldeb yn un *oddiwrth Dduw.* Nid plaid o ddynion yn byw yn ôl eu mympwy hwy eu hunain ydyw, ac nid plaid o ddynion yn gweithio er mwyn rhyw ddibenion bydol a gwladwriaethol ydyw. Mae delw Duw i fod ar yr Eglwys yn ei chenadwri ac yn ei gwaith. A chyn bydd yr Eglwys yn allu mawr yn y byd, *rhaid iddi deimlo* ei bod yn llefaru ac yn gweithredu *dros Dduw.*

Dylai'r Eglwys fod yn *un corff.* Mae y corff dynol yn un. Er fod iddo lawer o aelodau *un corff ydyw.* Mae pob aelod yn gwasanaethu'r un amcan. Felly y mae'r Eglwys i fod. Mae pob aelod i gydweithredu a'i gilydd yng ngwasanaeth y Pen. Pe cai Duw fod yn Ben ar yr Eglwys, a phob un yn ei ystyried ei hun yn aelod o'r Eglwys *yng ngwasanaeth Duw,* osgoid anghydfod a chlaearineb a phopeth arall sydd yn nychu nerth yr Eglwys. Ni all yr Eglwys fod yn gyfrwng i buro'r byd o'i bechodau a dyrchafu bywyd y ddynoliaeth heb iddi fod yn *un,* a hynny drwy fod Ysbryd Duw'n trigo ynddi ac yn ei llywodraethu.

Un angen mawr a berthyn i'r Eglwys yw *addef ei dibyniaeth ar Dduw.* Nid ar yr Eglwys yn unig y mae'r cyfrifoldeb. Os yw'r Eglwys yn bod er mwyn cyflawni gwaith Duw, yna y mae cyfrifoldeb ar Dduw i'w chynorthwyo yn ei gwaith. Mae credu fod ar Dduw gyfrifoldeb i amddiffyn yr Eglwys yn ysbrydiaeth i'r Eglwys. Mae cyfrifoldeb Duw i amddiffyn yr Eglwys yn gosod cyfrifoldeb ar ddynion hefyd i geisio Duw. Golyga hynny fod yn rhaid iddynt addoli Duw. Wrth hyn y mynegant eu dibyniaeth arno, ac y derbyniant nerth a gras oddiwrtho. *Corff o ddynion addolgar yw'r Eglwys.*

Mae'r Eglwys yn bod nid yn unig i addoli Duw ond hefyd i wneud gwaith Duw yn y byd. Hi sydd i fynegi ewyllys Duw i'r byd ac i geisio sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear. Mae i ddangos i'r byd fod angen gwella cyfundrefnau ym myd llafur, fod angen diwygio'r berthynas ryngwladwriaethol, ac fod angen gorseddu cyfiawnder a heddwch a dileu popeth sy'n achos gormes a gofid.

Un peth dylai'r Eglwys wylied rhagddo ydyw peidio a mynd yn llawforwyn i'r Wladwriaeth. Nid yw honno'n ddigon pur. Etholedigion Duw ydyw'r Eglwys i fod, yn gwneud ewyllys Duw ar y ddaear, ac heb gyfaddawdu ag un llais y tu allan iddi. Eglwys filwriaethus ydyw, ac amharu ei heffeithiolrwydd yn y byd y mae difaterwch a chyfaddawdu â galluoedd o'r tu allan iddi.

Dylai'r Eglwys beidio ag anghofio nad sefydliad bydol ydyw. Ysbrydol yw ei delfrydau ; ei dinasyddiaeth sydd yn y nef. Gwir fod yr Eglwys i roi sylw i broblemau'r cyfnod ; rhaid i'w chenadwri fod yn gyfaddas i daflu goleuni ar amgylchiadau'r oes, a dangos y ffordd i sicrhau uniondeb yn yr amgylchiadau hynny. Ond er fod yr Eglwys i roi ystyriaeth i broblemau bydol, nid yw ei chenhadaeth yn gorffwys gydag ystyriaethau economaidd, diwydiannol, a chymdeithasol. Nid yn unig y mae i ofalu am amgylchiadau bydol pobl eithr hefyd am eu bywyd moesol ac ysbrydol.

Peth arall y dylai'r Eglwys wylied rhagddo ydyw peidio a mynd i fyw iddi ei hun. Dywedwn hyn am y gwyddom ei fod yn beth sydd yn digwydd—eglwys yn byw iddi ei hun ac er ei mwyn ei hun. Prif amcan ambell eglwys wrth geisio ennill dynion i fod yn aelodau ohoni ydyw gwneud yr eglwys yn lluosog eu haelodau ac yn eglwys gref. Mae ei hamcan yn terfynu mewn bod yn eglwys luosog, ac yn eglwys ag enw iddi ar gyfrif hynny. Nid yw'n amcanu at fod yn sefydliad y mae nerth moesol a dylanwad ysbrydol yn perthyn iddo. Mae eglwys felly yn llwyddiant cymdeithasol, ond dyna'r cyfan y gellir ei ddweud amdani. Yr unig bethau sy'n ei chadw yn fyw ydyw rhyw fath o gymdeithasau, cyfarfodydd tê, a chyfeillach y bobl a'i gilydd wrth ddod ynghyd ar y Sul ac ar achlysuron eraill. Gall pethau felly fod mewn eglwys heb fod dim yn cael ei wneud ynddi i gynyrchu ysbryd defosiynol a diddordeb mewn gwybodaeth ysbrydol, ac ymgais at fuchedd loyw.

Gocheled yr Eglwys rhag dirywio i fod yn ddim amgen na chlwb sy'n bod i ddim un amcan uwch na llwyddiant cymdeithasol. Gall eglwys fod yn gymdeithas na fydd dim arall yn meddwl ei haelodau ond mynychu ei chyfarfodydd yn gyson, a byw yn ôl rheolau hen draddodiad. Gall beidio a theimlo un berthynas rhyngddi â'r Tad nefol, na theimlo un cyfrifoldeb arni i geisio gorseddu cariad, cyfiawnder, a heddwch, a dileu popeth sydd yn achos anghariad, anghyfiawnder, a thrueni. Nid yw'r Eglwys sydd felly yn ddim amgen na chymdeithas fydol a chwbl aneffeithiol.

CYWIRO GWALL.—Ym mharagraff Cronfa'r Ymofynnydd yn rhifyn Ionor darllener Mrs. Mary Williams, 7, Darkgate Street, Aberaeron, ac nid Aberystwyth.

"Briwsion" Mathias.

EISIAU.

Yr wyf *am* gael hwn." "Yr wyf *eisiau'r* peth arall." Geiriau cyson ar ein gwefusau yw'r rhain ! Ond credaf nad y pethau yr ydym *eisiau*, neu *am* yw ein hangen yn aml. Pe chwiliem ein gweddïau, fe welsem nad gweddïau mohonynt yng ngwir ystyr y gair. Nid ydynt ddim namyn "am" ac "eisiau" wedi gwisgo dillad parchus.

Fe glywais stori fach pwy ddydd, stori a ddengys yr hyn yr wyf yn ymgyrraedd ato yn gliriach o lawer. Hanesyn ydyw am fachgen bach a ddaeth i guro wrth ddrws stydi ei dad un bore dydd Sadwrn. Pregethwr oedd ei dad, ac yr oedd yn brysur wrthi yn paratoi ei bregeth erbyn drannoeth. Yr oedd y bachgen bach eisiau pensil. Wedi cael a geisiai, fe aeth allan. Ymhen ysbaid fer dyma gnoc arall ar y drws. Y tro yma yr oedd am gyllell i naddu pwynt i'r pensil. Eto, wedi cael, fe aeth ymaith. Y trydydd tro bellach, dyma gnoc fach arall, a'r tro hwn yr oedd eisiau rwber i lanhau'r hyn a sgrifennodd gyda'r pensil. Wedi cael, diflannodd am y trydydd tro. Erbyn hyn yr oedd amynedd y pregethwr bron ar derfyn, a'r bregeth ymhell o'i therfyn. Pan gurodd y bachgen ar y drws am y pedwerydd tro, yr oedd y tad yn barod i ddisgyblu tipyn, os nad rhagor. Ond y tro yma yr oedd eisiau dim ar y bachgen. Edrychodd ar ei dad, gan ddweud, "Nhad, nid wyf eisiau dim 'nawr, ond os caf fi aros mewn fan hyn gyda chi, mi fydda'n dawel bach.

Fe allwn ninnau hepgor llawer "am" ac "eisiau" yn ein gweddïau. Mae llawer angen wedi ei gyflawni wrth fod yn dawel gyda'r Tad. Mae perygl siarad gormod a gweddïo rhy fach ; mae perygl mynd i weiddi yn lle mynd i weddi. "Yn yr ysbryd . . . " oedd geiriau mawr Iesu.

* * *

"Er fod dyn heb arian yn dlawd, mae dyn heb ddim ond arian yn dlotach fyth."—*Arthur Mee.*

* * *

"Boed eich pebyll ar wahan ond boed eich calonnau yn agos."—*Dihareb o Arabia.*

* * *

Dylai dyn fod fel pin bach a'i glopa yn ei atal rhag mynd yn rhy bell.

* * *

GWÊN

Naturiol serch sy'n torri—o'r enaid
I'r wyneb fel lili
Ydyw'r wên, ond neidr yw hi.
Os dau wyneb sy dani.

—*E. Rees, Castellnewydd Emlyn.*

Gwerth Esiampl Dda.

STORI I BLANT.

Gan Mrs. A. REES, Llanbedr (gynt o Lanelli).

Bore'r Nadolig diwethaf, tra canai'r clychau'n llon i'n hatgofio o ddydd geni'r Baban Iesu yn agos i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, cododd Tomi'r Wern mewn hwyl arw iawn. Bachgen bach tua naw oed oedd Tomi. Daeth i lawr i'r gegin a'i anrhegion Nadolig o dan ei fraich ; taflodd hwy i'r ford yn bendramwnwgl, gan wneud sŵn mawr. Yr oedd ei fam wrth ei gwaith yn brysur. Parodd y sŵn iddi neidio i fyny mewn braw, edrychodd rownd yn wyllt i weld beth oedd yn bod. Dyna lle'r oedd Tomi yn sefyll ar bwys y ford, a'i wyneb mor hir a ffidil, a'i lygaid yn fflachio dialedd, a'r anrhegion Nadolig yn gawdel ar y ford.

"Beth sy'n bod arnat ti Tomi ? " gofynnai ei fam. "Pam wyt ti'n taflu anrhegion Santa Clôs i'r ford mor ddibarch ? "

"Ddaeth e ddim a'r toys o'wn i'n mofyn," meddai Tomi, a'i ben ar lawr. " 'Rown i'n mofyn trên yn rhedeg ar rails."

"Mi ddaeth a thrên i ti, onid do ? " meddai ei fam, gan geisio ei dawelu.

"Hy ! Tren ar rails o'wn i am," meddai Tomi.

"Mae'n rhaid i ti gofio mai amser rhyfel yw hi'n awr, 'does dim pethau o'r fath i'w cael," meddai ei fam. "Fe ddaeth a llyfr,—" cyn iddi gael amser i ddweud rhagor, dyna Tomi'n gwaeddi,—

"'Down i ddim am lyfr."

"Fe ddaeth â chyllell i ti." Dyna Tomi'n torri ar y siarad yn sarrug eto,—

" 'Down i ddim am gyllell."

"Daeth ag eroplên i ti," meddai ei fam. Dyna Tomi'n gwaeddi eto.

" 'Down i ddim am eroplên na thrên, ond trên ar rails."

"Dylet fod yn ddiolchgar iawn i Santa Clôs am ddod a chymaint o bethau i ti," meddai ei fam, "ond dyma ti yn pwdu ar bawb a phopeth, y crwtyn bach anniolchgar.

Yn y man, disgynnodd Robin Goch ar y llwyn rhosyn ger y ffenestr, a dechreuodd ganu'n hapus, nes llanw'r gegin a'i felodi swynol.

"Gwrando ar Robin Goch yn canu mor hapus," meddai ei fam wrth Tomi,—"ni wyr ef o ble i gael ei frecwast na'i ginio, a dyna fe'n diolch i'w Grëwr am gael byw yn Ei fyd mawr, a thithau sydd â gobaith gennyt am frecwast dda, a chinio o dwrci a phlwm pwdin, yn pwdu a chweryla, heb gymryd un sylw o'r clychau a'r aderyn bach yn canu mor swynol."

"Hy ! deryn yw hwnna, 'dyw e' ddim gwell o bwdu," meddai Tomi.

Ar hyn, clywsant rywun yn dod yn fywiog at y tŷ gan chwibanu yn llon. Daeth i'r drws a gwaeddodd yn galonnog : "Nadolig Llawen i chwi i gyd."

Galwodd Mrs. Jones, mam Tomi, arno i fewn. Pwy oedd e' ond Dic bach y Fro, un o gyfeillion Tomi yn yr ysgol. Aeth i fewn i'r gegin, ac yr oedd mor siriol a llon, ac ar ei got yr oedd Rhosyn Nadolig (Christmas Rose). Teimlai Mrs. Jones ei bresenoldeb fel llygedyn o heulwen yn dangos trwy'r cwmwl.

Bachgen bach tlawd oedd Dic, tua'r un oedran a Thomi. Cartref llwm oedd ganddo. Bu ei dad farw gan adael pump o blant bach i'r weddw i'w magu.

Pan welodd Dic anrhegion Tomi ar y bwrdd, llanwodd ei lygaid o edmygedd. Aeth ymlaen i'w sortio, a chymrodd ffansi yn y trên. Dechreuodd ei yrru yn ôl ac ymlaen ar y bwrdd. "Un pert yw hwn," meddai. Ni ddywedai Tomi'r un gair, dim ond edrych a rhyw lygad cuchiog at y ford.

"Os yw Dic wedi serchu yn y trên, gwell i ti ei roi iddo, os nad wyt ti am dano," meddai ei fam wrth Tomi.

Estynnodd Tomi ei law yn araf ac euog at y trên, cydiodd ynddo, a thynnodd ef ato. "Na, ro i ddim byd iddo," meddai yn swta.

"Wel, wel, yr wyt ti Tomi fel y ci yn y mansier, nid wyt am y trên dy hunan, ac nid wyt yn fodlon i neb arall ei gael," meddai ei fam.

"Fi pia fe," meddai Tomi.

"Faint o anrhegion ddaeth Santa Clôs i'ch tŷ chwi neithiwr, Dic ? " gofynnai Mrs. Jones.

"Dim un," atebai Dic.

Cododd Tomi ei lygaid, ac edrychodd ar Dic mewn syndod.

"Mae mam yn dweud bod ein tŷ ni'n rhy fach, a'r simnai'n rhy gul i Santa Clôs ddod lawr trwyddi," meddai Dic, "ond mae mam yn dweud cawn ni dŷ o fwy a simnai mwy llydan ar ôl i 'mrawd hynaf fynd i weithio. Fe ddaw Santa Clôs ag anrhegion i ninnau wedyn."

"A oes gennych chwi dwrci erbyn cinio heddiw ? " gofynnai Mrs. Jones.

"Nac oes, ond mae mam wedi addo gwneud pwdin reis i ni," meddai Dic yn llon.

Edrychodd Tomi yn syn ar Dic gan ofyn : " 'Does dim plwm pwdin gyda chi ? "

"Nac oes, ond mae mam wedi addo rhoi sultanas yn y reis i ni," meddai Dic, a'i wyneb bach yn gloywi yn y gobaith.

"Hy ! Dyna ginio," meddai Tomi.

" 'Rwyt ti, Dic, dipyn yn haws dy fodloni, ta beth," meddai Mrs. Jones. "Fe ddywedaf fi wrth Santa Clôs y flwyddyn nesaf sut mae Tomi yn ymddwyn. Ni ddaw e' a dim iddo wedyn."

"Mae mam yn dweyd ein bod wedi cael digon o anrheg ar y

Nadolig y ganwyd Crist i ni, ac nad oes angen rhagor arnom ni," meddai Dic.

" 'Rwyf finnau'n dweud hynny hefyd, ond nid oes neb yn gwrando arnaf," meddai Mrs. Jones. "Y mae Tomi yn pwdu heddiw am na chafodd anrhegion wrth ei fodd."

"Mae mam yn dweud mai dydd o ddiolch ddylai Nadolig fod ac nid dydd o wledda," meddai Dic. "Diolch am fod Crist wedi dod i ddangos i ni sut i fyw."

"Wyt ti Tomi yn gwrando ar Dic nawr ? " gofynnai ei fam.

"Hm," meddai Tomi. Yr oedd yn gwrando, er hynny.

"Mae mam yn dweud mai meddwl am bobl llai ffortunus na ni ein hunain ddylem ni wneud, ac nid meddwl am danom ni ein hunain. Dyna fel bu Crist fyw ar y ddaear, meddai hi."

" 'Rwyt ti, Dic, yn siarad yn dda," meddai Tomi yn sarrug. "Wyt ti'n meddwl am rywun heblaw ti dy hunan ? "

"Fe gefais i afal gan Mr. Davies y Siop ddoe am fynd ar neges," meddai Dic. "Afal coch mawr oedd e'. Dywedodd Mr. Davies mai *Canadian apple* oedd e'. Fe es i ag e' adref i'w rannu. Torrodd mam ef yn bum rhan, a chawsom ni ein pump bob o damaid. Dywedodd mam fy mod wedi gwneud y peth iawn."

"Hy ! " meddai Tomi. "Dyna lot i rannu—afal bach ! "

"Wel," meddai Mrs. Jones. "Dyna'i gyd oedd ganddo i'w rannu."

Teimlodd Tomi don o gywilydd yn codi drosto. Yr oedd ganddo ef bob math o bethau yn y tŷ, ond ni feddyliodd erioed am rannu a phlant bach oedd heb ddim.

Cyn hir, aeth Dic tua thref gan chwibanu, yn hollol gysurus, heb deimlo unrhyw eiddigedd at Tomi yn ei lawnder.

Pan oedd y weddw a'r pum plentyn yn barod i eistedd wrth y ford ginio, dyna Tomi Jones yn cerdded i fewn i'r bwthyn, gyda hamper fawr yn ei law. Cyfarchodd hwy yn foneddigaidd, yna gosododd yr hamper ar y ford, a chan ddymuno iddynt Nadolig Llawen, a phob hwyl i fwynhau cynnwys yr hamper, ymadawodd. Yn yr hamper yr oedd darn mawr o dwrci, a dysglaid o blwm pwdin, a chacen, a phob o anrheg i bob un o'r plant. Toys oedd Tomi wedi gael Nadolig neu ddau cyn hynny oeddynt, ond heb fod ddim gwaeth. Ni chafodd Dic erioed y fath syndod. Ni allai ddirnad beth oedd wedi achosi'r fath gyfnewidiad yn Tomi. Yr oedd Dic yn rhy wylaidd i feddwl mai ei esiampl ef a ddangosodd i Tomi mor wael a hunanol oedd ei natur ef. Penderfynodd Tomi fyw yn fwy tebig i Dic o'r dydd Nadolig hwnnw, ac i feddwl mwy am blant eraill a llai am dano'i hun, felly ennillodd Iesu ddisgybl newydd ar ddydd mawr ei ben-blwydd.

Cofiwch chwi, blant bach, bod esiampl dda, yn yr Ysgol Sul, ac yn y capel, ac ar y stryd yn help i annog eraill i ymddwyn yn dda. Dyna'r plant y mae Iesu yn garu, a dyna'r plant y mae Duw yn dderbyn i ganu yng nghôr plant bach y nef.

Adolygiad.

"Credaf" ydyw teitl un o'r cyfrolau diweddar mwyaf diddorol a phwysig a gyhoeddwyd yn Gymraeg. Trafodaeth ydyw gan unarddeg o ysgrifenwyr ysgolheigaidd ar a gredant, i gyd, namyn y Golygydd, yn fechgyn a merched lleyg, a'u hoedran yn amrywio o'r ifanc i'r canol oed. Heb sôn am y pynciau mawr a drinir y mae'r llyfr yn un pwysig am y dengys gyfeiriad meddwl dosbarth goleuedig o lenorion cyfoes. Fel y gellid tybio caiff daliadau crefyddol le amlwg ynddo ; yn wir cânt y lle amlycaf.

Ymddengys mai iawnffyddol ydyw cysylltiadau eglwysig yr holl ysgrifenwyr. Cyn rychiolir o leiaf bedwar corff cryf, sef, y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Eglwys Esgobol. Er cystal ydyw'r llyfryn gwell fyddai a chyflawnach pe cynhwysai hefyd erthyglau, dyweder, gan ryddymofynnydd proffesedig a chan fwy nag un gwyddonydd. Ceid felly amrywiaeth mwy a safbwyntiau gwahanol. Nid oes ond un cyfraniad sydd yn cydnabod rhan gwyddor mewn penderfynu credo grefyddol neb. Nid o anwybyddu unrhyw wedd ar wirionedd y cadarnheir ffydd grefyddol yn y pen draw. Nid gwiw ydyw cau llygaid ar oleuni gan nad o ba le y daw a glynu'n ddall a chyndyn wrth gyfundrefnau hen a thraddodiadol : nid oes rhinwedd mewn bod yn hen. Yn wir y mae'r ysbryd ceidwadol mewn proffeswyr crefydd droeon lawer wedi lluddias datblygiad y ddynoliaeth yn faterol, yn feddyliol ac ysbrydol. Wrth geisio profi dilysrwydd unrhyw gredo rhaid ydyw ei hystyried yn feirniadol a manwl o bob cyfeiriad.

Un peth a'n synnodd oedd parodrwydd amryw o'r ysgrifenwyr i fynwesu daliadau sydd yn hollol groes i brofiadau pob unigolyn. Mynega rhai eu cred yn y Geni gwyrthiol, gan lwyr wadu eu profiadau nad oes dim felly'n digwydd yn hanes y creadur o ddyn. Anwybyddant hefyd haeriad gwyddonwyr nad ydyw'r hyn a elwir *parthenogenesis* (cenhedliad heb ieuo'r rhywiau) yn digwydd ond mewn creaduriaid cymharol ddistadl : nis ceir ar raddfa datblygiad cyn uched a dyn. Felly ymwrthodwn a chredu dysgeidiaeth y mae pob profiad a phob cyneddf ynom yn ei gwadu. Ni sonia Marc, y cyntaf o'r tri efengylydd cyfolwg, am y Geni gwyrthiol. Ai nid oes awgrym arwyddocaol yn hyn ? A ydyw yn debig yr anwybyddai efe ddigwyddiad cyn bwysiced yn hanes dynoliaeth ? Ai nid tebycach ydyw mai impiad neu dyfiant diweddarach ydyw stori'r Geni gwyrthiol ? Peth cyffredin ddigon ydyw'r duedd i fawrygu a dwyfoli dynion yn arbennig mewn cyfnodau cynnar. Yn wir, fe gyfeiria un o'r erthyglau at honiad gwyddonwyr fod "pob math ar gyfatebiaeth rhwng chwedlau a chredoau gwerinoedd byd a'r hanes am Iesu. Nid peth newydd, meddent, yw hanes y Geni a'r Atgyfodi," eithr ni chydnebydd fod yr honiad hwn yn amharu dim ar ddilysrwydd yr hanes am Iesu. Pwys-

leisia amryw Atgyfodiad corff daearol Iesu—y bedd gwag. Yn wir os etifeddodd Iesu gorff dynol—ac ychydig ydyw'r rhai a wad hynny—ni wahaniaethai'r corff hwnnw yn ei hanfod oddiwrth bob corff dynol arall, a gŵyr pawb, bid siwr, fod pob corff wedi ei farw yn pydru a dadelfennu. Eithr a chaniatau atgyfodi o'r corff beth a ddaeth ohono? A ydym i feddwl am Iesu yn eistedd am dragwyddoldeb ar ei orsedd ac yntau'n aneddu'r corff daearol hwn? Os nad ydym, pa bryd ac ymha le y diosgwyd neu y diosgir ef? Holwn nid mewn amharch a gwawd ond gyda'r difrifwch mwyaf. Y mae'r materion yr ymdrinir a hwy yn rhy gysegredig i ysgafnder. Ond rhaid ydyw ceisio cytgord rhwng ein daliadau a ffeithiau bywyd fel y'u dadlennir gan brofiad, rheswm a sylwadaeth; rhaid ydyw ceisio bod yn realistig.

Yn ôl yr hen ddiwinyddiaeth canlyniad cwymp dyn yn Eden a wnaeth yr Ymgnawdoliad yn rheidiol, a chan fod stori'r ardd (a'i chysylltiadau) bellach wedi ei darostwng i fod yn chwedl oni elwir am ymagwedd newydd at yr athrawiaethau dibynnol arni? Gofynnwn gyda'r gwyleidd-dra dyladwy ai nid tarddu o hygoeledd plentyndod yr hil a wnaeth llawer o'r hyn y parheir i gredu ei fod yn hanfodol i iachawdwriaeth.

Yn sgil y dogmâu a nodwyd ceir ambell bwt arall o athrawiaeth amheus. "Am hynny, fe'i haddolwn" (Iesu), medd un ysgrifennydd. Onid y Tad ydyw unig wrthrych addoliad? Oni ddywedodd Iesu ei hun "Am hynny gweddïwch chwi fel hyn: Ein Tad . . ."?

Os ystyrir rhai o'r daliadau a fynegir yn ddiwinyddol iach, o'r safbwynt gwyddonol ymddangosant yn dra thebig i gyfeiliornadau ac, o gofio cysondeb deddfau natur, gofynnant radd helaeth o hygoeledd i'w credu. Yn eu bywyd beunyddiol ac yn eu holl ymwneud cydnebydd yr ysgrifenwyr y cysondeb hwnnw. Hebddo ni allent drefnu eu byd.

Pe terfynid y sylwadau hyn gyda'r feirniadaeth uchod gwneid cam mawr â'r llyfryn. Y mae ynddo doreth o ddrychfeddyliau godidog wedi eu mynegi mewn iaith goeth y'i disgwylid oddiwrth safle a dysg yr ysgrifenwyr.

Y mae rhai o'r cyfranwyr, a fagwyd yn Ne Cymru, yn gynefin a doluriau cymdeithas; ymgydnabuant yn fore a chyflyrau enbyd y diwaith ac ysgytiwyd hwy i ddynfderoedd eu heneidiau gan drueni eu cydnabod. Dadebrodd hynny ynddynt ddiddordeb mewn Sosialiaeth a Chominwyddiaeth fel moddion i liniaru dioddefaint y diymadferth, eithr er eu swyno gan wahanol "iaethau" cadwasant eu ffydd grefyddol ac ar honno yn awr y seiliant eu gobaith am fyd gwell.

I ddangos naws, arucheledd ac ardderchogrwydd y llyfryn ni ellir dim gwell na dyfynnu enghreifftiau byrion o wahanol ysgrifau:

"Os deallaf y Testament Newydd yn iawn, un peth yn y pen draw, ac un peth yn unig, a ddysgir ynddo, sef gwerth cariad mewn bywyd. Dysgir y wers hon ar air, a dysgir hi'n fwy effeithiol fyth

ym mywyd Crist ac yn ei farw. A chyda'r ddysgeidiaeth hon am gariad yr hoffwn aros."—(R.I.A.)

"Fy ngorchwyl i yw byw yn y byd hwn ; gwn, erbyn hyn, mor anodd ydyw hynny. I'm cynorthwyo, yng Nghrist y gwelaf fy esiampl a'm patrwm, fy ysbrydiaeth a'm Gwaredwr. Ceisiaf fyw yn ôl fel y credaf y dymunai Ef imi fyw, mewn ffydd, gobaith a chariad, gan fwynhau fy mywyd yn y llawenydd o geisio gwneuthur fy ngorau."—(I. Ab. O.E.)

"Credaf mai Crist yw'r datguddiad perffeithiaf o Dduw, ac mai trwy geisio byw yn Grist-debyg y daw dynion pob oes a gwlad i adnabod y Tad. Ac os cydnabyddwn fod Duw yn Dad, credwn ar yr un pryd fod pawb yn frodyr i'w gilydd."—(R. E. G.)

"Nid eilbeth cymdeithas mo Cristionogaeth, ac y mae'n rhaid delio â'r grefydd hon â llawer mwy o barch meddyliol a dynesiad ymarferol nag a wneid. Dyma'r sialens fwyaf a gafodd y byd erioed, ac yn sicr ni bu cyfnod yn hanes y byd pryd y bu mwy o alw am i ni *feddwl* Crist a dysgu'r genhedlaeth i farnu â safonau Cristionogol."—(N. I.)

"Nid yw Teyrnas Dduw yn farn ar y byd hwn, a hynny'n unig, ond hi a rydd hefyd safonau barn yn y byd."—(D. G. J.)

"Drwy'r sawl sy'n ddisgyblion Crist y mae egni ysbrydol yn llifo i'r byd, a Christ o hyd drwyddynt hwy yn adnewyddu a chyfeirio bywyd. Dawn fawr yw hon a dry ddynion, cymdeithas o ddynion, yn sianel ysbrydol, yn offerynnau gras Duw yn y byd. Nid oes dim pwysicach na hyn yn bosibl i ddynion ; y maent yn athrawon a chrefftwyr, masnachwyr ac amaethwyr, yn weithwyr mewn ffatri a glofa, ar for ac yn yr awyr ; ond y maent yn barod hefyd i fod yn llythyrau Crist yn y byd a sianelau ei fywyd ymysg dynion."—(G.J.)

"Credaf nad oes fawr ystyr i ddiwinyddiaeth ond yng ngoleuni profiad personol. Dedwydd yw'r llanc nad yw'n rhaid iddo ddad-ddysgu llawer o'r hyn a ddysgodd gynt, ac o ganlyniad golli ffydd yn ei athrawon. Yn fynych, un o'i anawsterau mwyaf yw cysoni'r gwirioneddau a glyw yn yr eglwys â'r wyddoniaeth a ddysg yn yr ysgol. A pheth difrifol iawn yw creu gwrthwynebiad ym meddwl y llanc rhwng y dehongliad "gwyddonol" a'r dehongliad "crefyddol' ar fywyd—gwrthgyferbyniad a achsoir gan ddiogi meddwl crefyddwyr yn hytrach na chan unrhyw wrthgyferbyniad hanfodol rhwng gwyddoniaeth a chrefydd."—(I.J.)

"Rhaid yw myned ag ysbryd y Groes i mewn i bob cylch o fywyd, i fyd masnach a gwleidyddiaeth, ac i wynebu problemau cymdeithasol a rhyngwladol."—(M.P.)

Dyna dywysennau dethol o'r ysgub sydd yn dda drwyddi, er na thybiwn bob brig cystal a'i gilydd.

Er y gwahaniaethwn mewn barn ar wahanol bynciau diolchwn yn gynnes i'r Golygydd, y Parch. J. E. Meredith, a'i gydlafurwyr am baratoi'r gyfrol hon. Y mae'n addurn i lenyddiaeth gyfoes. Cyhoeddwyd hi gan Wasg Aberystwyth a'i phris ydyw 3s.

Cofnodion Pwyllgor yr Hydref.

CYNHALIWYD yn Rhydygwin dydd Mawrth, Hydref 19, y Llywydd, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos yn y gadair. Cymrwyd y defosiynau gan y Parch. S. E. Bowen.

Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y cwrdd blaenorol.

Darllenwyd llythyr oddiwrth Dr. R. Ogwyn Jones, cadeirydd y gynulleidfa Gymraeg yn Llundain, yn diolch am y grant a'r dymuniadau da a ddanfonodd y Gymdeithas i'r gynulleidfa.

CYRDDAU'R PASG.—Penderfynwyd gofyn i gynulleidfa'r Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed fod mor garedig a'u derbyn, ac os methai hi, ein bod yn aeplio at gynulleidfa Caeronnen.

ADFYWIO EIN CYNULLEIDFAOEDD.—Codwyd y cwestiwn—"Beth a ellir ei wneud i adfywio ychydig ar ein Cynulleidfaoedd a'n Hysgolion Sul?" Siaradwyd arno gan y Parchn. J. Islan Jones, M.A., S. E. Bowen, T. O. Williams, M.A., J. Marles Thomas, M.A., A. J. Martin, B.A., Mr. John Evans (Capel y Groes) a Mr. D. Jones (Brondeifi). Ar gynnig y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei eilio gan y Parch. T. O. Williams, M.A., pasiwyd fod y mater yn cael ei daflu i'r Pwyllgor Gwaith, ac yna i gael ystyriaeth pellach yng nghyrddau'r Pasc.

YR YMOFYNNYDD.—Pasiwyd ein bod yn pwysleisio'r apel am gyfraniadau oddiwrth y cynulleidfaoedd ac unigolion tuag at yr ychwanegiad yn y draul o'i argraffu.

Cyflwynodd y Llywydd a'r Is-lywydd ddiolch cynnes i'r cyfeillion yn Rhydygwin am dderbyn ohonynt y cyrddau.—E. O. JENKINS, *Ysgrifennydd.*

Priodasau.

IONOR 15, yng Nghapel Neuadd, Llwyndafydd, DAVID JAMES EVANS, Gwarcwm, Llandysul a RACHEL MARY (RITA) PARRY, merch Mr. a Mrs. Parry, Neuadd, Llwyndafydd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Robert Rees ac E. O. Jenkins.

IONOR 24, yng Nghapelygroes, DANIEL HAMILTON JENKINS, Blaenwaunganol, Llanwnnen ac ELIZABETH JONES, Esger Inglis. Gwasanaethwyd gan y Parch. A. J. Martin.

Marwgof.

RHAGFYR 29, 1943, bu farw DAVID FRANCIS WILLIAMS, priod Elizabeth Williams, Pantyronnen, Llanwnnen, yn 61 oed. Oddi cartref yr oedd pan drawyd ef yn ddisymwth, a bu raid mynd ag ef i Ysbyty St. Mary Abbot's yn Llundain, lle y bu farw. Gadawodd weddw, mab a dwy ferch i'w alaru. Dygwyd ei gorff yn ôl i Gapelygroes Ionor 4. Gwasanaethwyd yn y capel gan y Parch. A. J. Martin, ac ar lan y bedd gan y Parch. S. E. Bowen.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd noson lawen yma ar Ragfyr 29 o dan nawdd yr adran o Gynghrair y Gwragedd, yr elw at drysorfa cysuron y milwyr o'r gynulleidfa. Daeth nifer dda ynghyd, a chafwyd gwledd ddymunol, a noson ddiddig iawn.

CAPELYFADFA.—Cafodd yr Ysgol Sul ei gŵyl de flynyddol ar Ionor 4, pryd y daeth llond y Neuadd ynghyd, a phawb mewn hwyl dda. Gofalodd y chwiorydd am ddigon o bethau blasus i'w bwyta. Cafwyd rhaglen ddymunol iawn o adrodd a chanu gan y plant, a Mr. Evan Davies, Maespwll, yn arwain y cwrdd. Gwobrwywyd nifer dda am ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul, a Mr. Inver Davies, Gwardafolog, yn Dad Nadolig. Cafwyd anerchiadau gan y Parch. E. O. Jenkins a Mr. E. Lloyd Jones, Pantybryn.

I IESU, Y GWR IFANC.

(Lled-gyfieithiad o gerdd Annie Charlotte Dalton, Canada.)

Pa le mae gair dy lencyndod a'th degwch,
Dy ddewrder ifanc a'r blys am fynd?
Pa le mae'r llawenydd a'r cysur cartrefol,
A chanu hapus dy lawer ffrind?
Ni chlywsom amdanynt, na sôn am wên,
Dim, namyn hanes gan y barfog hen.

Mae'r hen o hyd yn eu seddau uchel,
Yn gwau a thaenu eu rhwydi fyrdd,
Mae'r hen o hyd yn lladd a distrywio,
Rhyfedd o hyd yw yr hen a'u ffyrdd.

Ewyllysiwn dy weled, Iesu,
Nid fel y gwêl yr hen dydi,
Ond fel myn ieuenctid dy weled,
Bydd yn ifanc am byth i ni.
Nid yn y Deml yn dadlau
A'r doethion yn sych a hir,
Ond megis hydd yn llamu
Dros grisial afonydd clir.

Nid ar y groes yn marw
Ymhell a gwan yn dy gur,
Ond ar y ddaear yn ceisio
Bywyd a chariad pur.

Tydi yw'r ieuenctid aberthwyd
I wanc eu croes,
Tydi oedd y Gwir nas cafwyd
Gan hen dy oes.

Dyro eto dy gariad a'th wên
I ni fu'n nychu ar hanesion yr hen.

D.J.D.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.